

Tystiolaeth o Ddieuogrwydd Dic Penderyn

Mewn dyddlyfr sydd yn rhan o archifau y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth y mae tystiolaeth eglur bod Dic Penderyn yn ddieuog o'r drosedd y dienyddiwyd ef amdani. Mae'r dyddlyfr yn cronicle hanes bywyd a theithiau pregethwrol Edmwnd Evans, Utgorn Meirion (un o'm cyndeidiau). Fe'i ganwyd yn 1791 (y flwyddyn y bu farw John Wesley a William Williams, Pantycelyn), yn Aberdeunant Isaf, Llandecwyn ger Talsarnau, Meirionnydd.

Cafodd Edmwnd Evans droedigaeth ac ymunodd â 'Society' y Wesleaid yn Bryn y Bwa Bach (Llandecwyn) ar ôl gwranddo ar Edward Jones, (Bathafarn), Samuel Davies a Robert Humphreys yn pregethu. Dechreuodd bregethu yn fuan wedyn a threuliodd y gweddill o'i oes yn teithio o gwmpas y wlad yn pregethu.

Cyfrifid ef yn un o hoelion wyth ei ddydd a dilynid ef gan dyrfaoedd i wrando ar ei deithiau pregethwrol ledled Cymru, Llundain, Bryste, Lerpwl a Manceinion a daeth yn un o bregethwyr mwy poblogaidd yr enwad Wesleaid. Dyma ddywed y diweddar Barchedig Ddr D. Tecwyn Evans yn ei *Atgofion Cynnar* amdano:

'Ef oedd y pregethwr cynorthwyol mwyaf poblogaidd a dylanwadol yn ei gyfundeb drwy Gymru oll. Adwaenid ef ar lafar gwlad wrth yr enw Utgorn Meirion ar gyfrif ei lais heraidd a phwerus. Cerddodd filoedd o filltiroedd i gyhoeddi'r newydd da fod digon o wled ar fwrdd yr Efyngyl fel y gellir yn hyderus iawn wahodd PAWB i gyfranogi ohoni: peth a gredid yn ddiamau gan holl lwythau Israel erbyn hyn, ac ers llawer dydd bellach, diolch am hynny.

Gwrthododd gymeryd gofal Eglwys, ar ei alwad i'r Cilwyn (1837). Dewisodd yn hytrach ganlyn gyda'r gwaith o ennill eneidiau trwy genhadu. Felly edrychir arno yn fwy fel cenhadwr nag fel bugail. Eto bu yn fuguail hynod a gweithgar i'w annwyl Soar, Talsarnau, bro ei enedigjaeth, a chysylltir ei enw â sefydlu yr achos yno. Roedd y fangre honno yn gysegredig iawn ganddo. Yno y cafodd y seiaidau ysbrydol wrth fodd ei galon a chymdeithas agosaf â'r Iesu ac yno y torrwyd llaweroedd o weithiau y blwch o enaint nard gwlyb. Er cymaint o amser a drigodd oddi cartref, ef oedd y bugail a'r cenhadwr iddynt hwy. Roedd beunydd yn galw heibio'r cleifion i weddio gyda hwy a hyd yn oed rhoi pregeth yn y tŷ. Ef hefyd fyddai yn cynnal yr wynlosau os byddai gartref. Llafuriodd hefyd yn achosion amryw o gapeli eraill y gylchdaith ac yn enwedig Abermaw, Porthmadog a Phenrhyndeudraeth yn y rhai yr oedd yn ymddiriedolwr. Ar ei deithiau casglodd arian at laweroedd o gapeli i ysgafnhau eu dyledion. Yn eu mysg roedd Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Biwmares, Rhuthun,



Edmwnd Evans (Utgorn Meirion) Paentwyd gan John Williams, Abergele 1846. Tynwyd y llun gan Robin Griffith, Creigiau.

Dinbych, Llanrwst, Abermaw a Llanfaircaereinion. Poenodd lawer am ddyled Caernarfon a Phorthmadog a mawr oedd ei drallod yn methu cael neb i fod yn warantydd ar ddyled Capel Porthmadog. Llawenychoedd pan ddaeth Capten Williams, Harlech i'r adwy a rhoi benthyg yr arian ar log. Wrth fegio o gwmpas y wlad a bod yng Nghapel y Port yn 'gwerthu seti' (eisteddleoedd), a chynnal areithiau, daeth y ddyled i lawr o ddau gant a hanner i ddeg a phedwar ugain o bunnoedd. Yn y flwyddyn 1841-1842 casglodd, trwy lafur mawr, dros £170 at gapeli oedd yn cael eu hadeiladu neu mewn dyled, a dengys hyn hefyd barodrwydd y cyfeillion i gyfrannu at gapeli nad oeddynt hwy yn perthyn iddynt. Yr oedd hyn yn arian mawr yr amser hynny. Bu'n casglu hefyd ar draws y wlad at y Genhadaeth Dramor a chynnal cyfarfodydd o ddau neu dri diwrnod ym mhob capel yn ei dro, i hel arian.

Un o'r storïau mwyaf trawiadol yn y dyddiadur yw am ddienyddiad Dic Penderyn a'r teimlad ingol yn y carchar. Gweddiodd gyda'r carcharor a chymeryd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd a cherdded allan at y grogbren gydag ef. Dengys yr adroddiad dystiolaeth sier iawn gan Lewis Lewis a Dic ei hunan, mor ddieuog yr oedd Dic o'r lladdiad. Cawn ei ymweliad â charchar Caerdydd, fel y dywed - 'i weld carcharor oedd i gael ei golli am ryw derfysg ym Merthyr' ac mae yn rhoddi ei enw ymhellach yn yr hanes fel Richard Lewis. Roedd y profiad o fod gyda'r carcharor yn un trist a thorecalonnus iawn.

Doedd Edmwnd Evans fawr feddwl y byddai y truan garcharor a ddienyddiwyd yn cael ei ferthyru a chael yr enw adnabyddus Dic Penderyn, y mae Cymru heddiw yn gofyn am bardwn iddo.

Ers rhai blynyddoedd fe gynhaliwyd seremonïau ar ddiwrnod Dic Penderyn yn Stryd y Santes Fair, Caerdydd, wrth y fynediad i'r farchnad 'dan do', lleoliad hen garchardy Caerdydd lle y cafodd Dic ei ddienyddio. Ers i'r Cynghorydd Charlie Gale, o Gyngor Dinas Caerdydd, yn 1993 alw'r dydd arbennig i gofio Terfysg Merthyr a dienyddiad Dic Penderyn yn 'Ddiwrnod Dic Penderyn' bu ymgyrch i glirio enw'r terfysgwyr ac mae miloedd wedi arwyddo'r ddeiseb i ofyn pardwn i Dic.

Yr oedd y flwyddyn 1997 yn un arbennig gan fod tri o'r rhai fu'n gweithio dros yr ymgyrch i gael pardwn iddo, wedi marw'n ddiweddar a chynhaliwyd dau funud o dawelwch er parch a chof amdanynt. Yr oedd gan y tri gysylltiad neilltuol â Merthyr, sef y diweddar Alexander Cordell a ysgrifennodd lyfr am Ferthyr, y diweddar Eddie Thomas, cyn faer Merthyr a'r bocsiwr enwog a'r diweddar Athro Gwyn Alf Williams, yr hanesydd a oedd yn arbenigwr ar hanes y Terfysg ac a ysgrifennodd yr hanes yn ei lyfr *The Merthyr Riots*.

Ymysg y siaradwyr y diwrnod hwnnw roedd Rhodri Morgan, Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd ac sydd heddiw yn Arweinydd y Cynulliad, a Pamela Lewis, disgynnydd uniongyrchol o Dic ei hunan.

Dywed Charlie Gale fod yna dystiolaeth gadarn na fu i'r trywaniad ladd y soldwr Donald Black. Dywed hefyd i'r gwir droseddwr gyfaddef yr ymosodiad ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, yn yr Unol Daleithiau.

Gwrthodwyd yr apel yn ei dro gan yr Ysgrifenyddion Gwladol Michael Howard a Jack Straw. Y rheswm a roddwyd oedd fod gymaint o amser wedi mynd heibio ers hynny. Mi roedd yna apel y llynedd i'r Ysgrifenydd Gwladol newydd, David Blunkett. Y siaradwyr oedd Prif Weinidog y Cynulliad, Rhodri Morgan a Sally Jones, a ysgrifennodd lyfr am Dic Penderyn. Gwahoddwyd tri Aelod Seneddol arall i'r seremoni, sef Kevin Brennan (A.S. dros Orllewin Caerdydd), Dai Havard (A.S. Merthyr) a Hywel Francis (A.S. Aberafan). Cofwyd y tri o Ferthyr gyda dau funud o dawelwch y tro hwn hefyd. Fe gafwyd seremoni tebyg eleni ond dal i aros yr ydym am y pardwn sydd yn deilwng iddo.

Fe ddywed yr Athro Gwyn Alf Williams yn ei lyfr am Edmwnd Evans yn y carchar yn gweddio gyda Dic ac yn cerdded wrth ei ochr at y grogbren. Does dim amheuaeth fod Dic yn ddieuog o ladd y soldwr.

Mae'r hanes ingol yma gan Edmwnd Evans yn ei ddyddiadur yn dangos yn glir safiad Dic yn ei oriau olaf - ei fod yn ddieuog ac mae ategiad pendant a chadarnhaol Lewis Lewis, y carcharor arall a gafodd ei alltudio, yn dweud ei fod ef yn